



22^{ain} Chwefror 2021

Annwyl Rien / Ofalwyr,

Fel yr ydych eisoes yn ymwybodol mae disgyblion CA4 yn cwblhau dau gwrs TGAU yn Saesneg: Llenyddiaeth Saesneg a Saesneg Iaith. Rwyf yn ysgrifennu i'ch atgoffa y bydd holl ddisgyblion blwyddyn 10 yn sefyll arholiad Llenyddiaeth Saesneg ar ddiwedd blwyddyn 10, gyda Saesneg Iaith yn cael ei sefyll ar ddiwedd blwyddyn 11.

Fel efallai eich bod yn ymwybodol eisoes, mae disgyblion wedi cwblhau eu hasesiad dan reolaeth ar Shakespeare ym mis Hydref a bydd hwn yn cyfrannu tuag at eu Gradd a Benderfynir yn y Ganolfan. Fel rhan o'u gwersi ar -lein maent yn cael eu haddysgu'r wybodaeth a'r sgiliau sydd angen ar gyfer Uned 2a/2b ac mae tystiolaeth yn cael ei goladu ar ffurf dyfyniadau a thraethawd mewn ymateb i'r testunau.

Mae'n hanfodol bod disgyblion yn cyflawni'r holl waith a osodir fel y gellir ei ddefnyddio fel tystiolaeth. Heb gwblhau'r dystiolaeth, mae'n annhebyg y bydd disgyblion yn cyrraedd eu graddau disgwylidig lleiaf.

Mae'r testun sy'n cael ei astudio ar gyfer Uned 2a/2b yn dibynnu ar y setiau ac maent fel a ganlyn:

Setiau 1 + 2 (Mrs Jones a Mr James): 'An Inspector Calls' gan JB Priestley a 'Heroes' gan Robert Cromier.

Setiau 3 + 4 (Mrs Hughes a Mrs Buchan): 'Blood Brothers' gan Willy Russell a 'A Christmas Carol' gan Charles Dickens.

Os oes gennych unrhyw gwestiwn ynglŷn â hyn, yna cysylltwch â mi drwy e bost:
jh@llanfyllin.powys.sch.uk.

Yn gywir,

Mrs J. Hughes

Pennaeth Yr Adran Saesneg

Cysylltwch / Contact

Llanfyllin, Powys SY22 5BJ

Ffôn / Telephone: (01691) 648391

office@llanfyllin.powys.sch.uk

www.llanfyllin.powys.sch.uk

Tîm Arweinyddiaeth / Leadership Team

Pennaeth / Headteacher:

Mr Dewi Owen

Dirprwy Bennaeth / Deputy Headteacher:

Mr Llŷr Thomas

Penaethiaid Cynorthwyol /

Assistant Headteachers

Mr Huw Lloyd-Jones

Mrs Ann Roberts

Mrs Sioned Vaughan

Rheolwr Busnes/Business Manager

Mrs Sarah Hunter

CADY/ALNCO

Mrs Rhiannon Molyneux